



**THE VALE OF GLAMORGAN COUNCIL,  
CIVIC OFFICES, HOLTON ROAD,  
BARRY CF63 4RU**

## **HYSBYSIAD STATUDOL I UNO YSGOL FEITHRIN COGAN AC YSGOL GYNRADD COGAN O FIS MEDI 2022.**

**RHODDIR HYSBYSIAD** yn unol ag adrannau 42(1) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod y corff llywodraethu, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol, yn cynnig gwneud addasiadau a reoleiddir i Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Feithrin Cogan dirwyn i ben trwy:

- Newid ystod oedran isaf disgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cogan ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a
- Dirwyn Ysgol Feithrin Cogan i ben a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin fel eu bod yn rhan o drefn lywodraethu Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

Mae'r cynigion hyn yn cael eu hystyried dan adran 2.1 a 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae adran 2.1 yn cyfeirio at gau ysgol a gynhelir. Mae adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig ysgol, sy'n cynnwys newid ystod oedran ysgol o flwyddyn neu ragor.

### **Crynodeb o'r cynnig:**

Mae'r ysgol gynradd yn ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg gydag ystod oedran o 4-11. Lleolir yr ysgol yn Stryd Pill, Penarth CF64 2JS. Mae'r ysgol feithrin yn ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg gydag ystod oedran o 3-4 ac mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Cawnpore St, Penarth CF64 2JU. Mae'r ddwy ysgol yn cael eu cynnal gan Gyngor Bro Morgannwg.

Bydd y cynnig yn arwain at ddirwyn Meithrinfa Cogan i ben a bydd holl staff Meithrinfa Cogan yn cael eu trosglwyddo o dan lywodraethu Ysgol Gynradd Cogan. Byddai darpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o'r adeilad meithrin presennol o dan y cynnig. Cynigir gweithredu'r cynnig ddydd Llun 5 Medi 2022.

Ym mis Ionawr 2022, roedd 47 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol feithrin ac roedd 204 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol ar gofrestr yr ysgol gynradd. Bydd y capasiti ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol yn aros ar 210 o leoedd gyda 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn cael eu hychwanegu at Ysgol Gynradd Cogan. Bydd y ddarpariaeth feithrin yn cael ei darparu yn y lleoliad meithrin presennol. Bydd yr ysgol yn rhan o ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg ac yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw. Cyngor Bro Morgannwg fydd yr awdurdod derbyn a bydd yn parhau i gynnal yr ysgol.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion yn yr oed ysgol statudol sy'n byw ymhellach na phellter cerdded oddi wrth yr ysgol briodol agosaf, yn unol â 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'. Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cludiant ysgol am ddim ar gyfer plant oedran meithrin ac eithrio'r rheiny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ynghylch cludiant plant i'r ysgol nac o'r ysgol. Gan y byddai'r cyfnodau meithrin yn aros ar eu safleoedd presennol gyda'u capasiti cyfredol, ni ragwelir goblygiadau ar gyfer cludiant na threfniadau teithio dysgwyr.

### **Ymgynghoriad:**

Ymgwymerodd Cyngor Bro Morgannwg â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ynghyd ag ymatebion y cynigydd ar gael yn yr wefan Cyngor Bro Morgannwg yn y cyfeiriad canlynol:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/Consultations/Nursery-Provision-Penarth-Consultation.aspx>.

### **Cyflwyno gwrthwynebiadau:**

Yn unol ag adran 49 y 'Ddeddf', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hynny yw erbyn diwedd y **Dydd Mercher 16 Mawrth 2022**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at:  
Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau,  
Cyngor Bro Morgannwg,  
Swyddfa Ddinesig,  
Heol Holltwn,  
Y Barri  
CF63 4RU

neu e-bostiwrch [sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk)

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau  
Ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg  
16 Chwefror 2022